WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr David Waggett
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Swyddfeydd y Cyngor
Y Ganolfan Ddinesig
Glynebwy
NP23 6XB

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 632A2012 |
| **Dyddiad** | 12 Rhagfyr 2012 |
| **Tudalennau** | **1** o **10** |

Annwyl David

## Llythyr Asesiad Gwella

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r casgliadau allweddol sy'n codi o'm gwaith mewn perthynas ag adrodd ar welliannau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

Mae gofyn i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy llythyr Asesiad Gwella ar 19 Medi 2012, mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd am welliant;
- fy sylwadau, a sylwadau rheoleiddwyr perthnasol, ar i ba raddau y gellir dibynnu ar hunanwerthusiad y Cyngor;
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion.

Byddaf hefyd yn parhau i wneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor dros y misoedd nesaf.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

**Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru.**

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- Cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ei *Gynllun Gwella Corfforaethol - Cam 2* (yr Adroddiad Perfformiad) cyn 31 Hydref 2012.
- Fel sy'n ofynnol o dan y Mesur, mae'r Adroddiad Perfformiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2011-12) ac yn nodi'n eglur sut y mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur.
- Yn unol â'r Mesur, mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurir gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol.
- Mae'r Adroddiad Perfformiad hefyd yn nodi sut y mae'r Cyngor wedi ymateb i'r argymhelliad statudol a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Tachwedd 2011 yn ei Asesiad Corfforaethol o drefniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus. Yn unol â'r Mesur, mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys datganiad am ei weithgarwch yn 2011-12 sy'n nodi sut y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r argymhelliad statudol.
- Mae'r Adroddiad Perfformiad ar gael yn Gymraeg a Saesneg i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor. Mae hefyd ar gael ar ffurf copi caled, a gallwch ofyn am fersiynau mewn fformatau eraill, yn cynnwys Braille a fersiwn sain. Gwneir hyn yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor. Hefyd cynhyrchwyd crynodebau penodol o'r Adroddiad Perfformiad yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Ymgynghorwyd â Phanel Dinasyddion y Cyngor ynglŷn â blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella a rhoddwyd cyfle da i'r Panel allu herio perfformiad.

Hefyd, mae angen i'r Cyngor gydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru a nodais nifer o feysydd lle gall y Cyngor wella ei Adroddiad Perfformiad:

- Yn eu gwerthusiad o'u perfformiad, anogir Cynghorau i gynnwys canlyniadau adolygiadau gan gymheiriaid, asesiadau craffu a ffynonellau eraill o wybodaeth fwy ansoddol megis arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid â gwasanaethau a data meincnodi. Nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys dadansoddiad eang o'r fath ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar asesu perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol. Byddai cynnwys y wybodaeth ychwanegol hon yn cynorthwyo'r Cyngor i hunanwerthuso ei berfformiad yn fwy effeithiol ac adrodd ar welliant yn fwy eglur.

- Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys adran gryno ar weithgarwch pwysig ar y cyd megis y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg ac integreiddio gwasanaethau cymdeithasol â Chaerffili. Hefyd, nodir manylion am rai prosiectau eraill ar y cyd yn asesiad y Cyngor o'i berfformiad ar Amcanion Gwella unigol. Nid yw'r crynodebau hyn yn asesu beth fu manteision gweithio ar y cyd hyd yma, beth a gyflawnwyd ac a yw'r canlyniadau a fwriadwyd yn cael eu cyflawni.
- Mae crynodeb o brif ganfyddiadau gwaith rheoleiddio gan Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i gynnwys ac mae'r wybodaeth a roddir yn cynnig crynodeb cytbwys o'r prif ganfyddiadau. Fodd bynnag, ni chyfeirir at gasgliadau peth gwaith sy'n adrodd ar, ac yn asesu sut y mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad a gwelliant - er enghraifft, fy adolygiad manwl o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor a gwblhawyd yn 2011-12. Golyga hyn nad yw'r Cyngor yn ystyried pob ffynhonnell wybodaeth briodol sydd ar gael wrth werthuso ac adrodd ar ei berfformiad.
- Nid oedd Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn hygyrch iawn i ddinasyddion ym mis Hydref 2012 a gellid gwneud rhagor i sicrhau bod dinasyddion yn ymwybodol o asesiad y Cyngor o'i berfformiad ar yr adeg y mae'n cyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan fod yr Adroddiad Perfformiad dros 120 tudalen o hyd, heb ei gyflwyno'n eglur, a byddai wedi elwa o grynodeb hygyrch ar adeg cyhoeddi'r Adroddiad Perfformiad. Aed i'r afael â'r mater wedyn drwy gynnwys crynodeb yng nghylchgrawn Cyswllt Rhagfyr 2012 a ddosbarthwyd i bob cartref ym Mlaenau Gwent.

Mae'r Adroddiad Perfformiad hefyd yn diweddaru Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2012-13 a diwygiwyd y rhain o dan y weinyddiaeth newydd ym Mlaenau Gwent. Byddaf yn cyflwyno adroddiad dilynol ar y rhain yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol y bwriedir ei gyhoeddi ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2012-13.

## Mae gwendidau sylweddol a hirdymor o hyd o ran cysondeb ac effeithiolrwydd y modd y mae'r Cyngor yn rheoli, adrodd ar, gwerthuso a rhoi cyfrif am ei berfformiad

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn gan i mi nodi amryw o ddiffygion yn y modd y mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gwerthuso ei berfformiad yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn Ionawr 2012. Roedd angen mynd i'r afael â'r diffygion hyn er mwyn cryfhau atebolrwydd i ddinasyddion. Er bod peth cynnydd wedi'i wneud o ran gwella rheoli perfformiad, adrodd a gwerthuso, gwelodd fy adolygiad o Adroddiad Perfformiad y Cyngor a'r systemau a sefydlodd i oruchwylio a gwerthuso ei berfformiad ei hun yn 2011-12 fod y cynnydd hwn wedi bod yn araf ac anghyson ac mae llawer o'r gwendidau a nodais yn flaenorol yn dal heb eu datrys. Mae'r rhain yn parhau i lesteirio gwaith y Cyngor a rhaid mynd i'r afael â nhw ar frys er mwyn ysgogi gwelliant ym Mlaenau Gwent.

**Mae gan y Cyngor fframwaith ar gyfer rheoli ac adrodd ar berfformiad ond oherwydd anghysonderau yn y modd y mae'n cael ei gymhwyso a diffyg perchnogaeth a gallu corfforaethol i herio ac ysgogi gwelliant, nid yw'r fframwaith bob amser yn gynhwysfawr, yn gadarn ac yn effeithiol**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu fframwaith rheoli perfformiad i ymdrin â'r canlynol:

- Rheoli gwybodaeth gyda gwybodaeth am berfformiad yn cael ei hadrodd a'i rheoli drwy Ffynnon.
- Adroddiadau chwarterol ar berfformiad gwasanaethau i'r pwyllgorau craffu perthnasol. Hefyd mae'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol (yr hen Bwyllgor Craffu Cyllid, Gwella a Pherfformiad) yn goruchwylio pob adroddiad perfformiad chwarterol a gall gyfeirio unrhyw fater o bryder i bwyllgorau craffu pwnc eu hystyried.
- Creu safonau gofynnol corfforaethol ar gyfer adrodd y bydd gofyn i'r gwasanaethau adrodd arnynt a hunanwerthuso yn eu herbyn. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad o berfformiad mewn perthynas â chyflawni Amcanion Gwella perthnasol a'r mesurau llwyddiant a ddefnyddir ar gyfer barnu gwelliant.

Caiff trefniadau rheoli perfformiad eu cydgysylltu a'u goruchwylio ar draws y Cyngor gan yr Uned Busnes Strategol. Mae'r Uned yn darparu cymorth i wasanaethau, ond nid yw'n ysgogi perfformiad ar draws gwasanaethau'r Cyngor nac yn rheoli a herio'u gweithgarwch yn fewnol. Y gwasanaethau unigol yn unig fel 'perchnogion' y gwelliant a'r Amcanion Gwella sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldebau hyn, a nhw sy'n atebol am adrodd ar eu perfformiad ei hunain yn erbyn yr amcanion. Rydym yn bryderus nad yw'r Cyngor yn meddu ar y gallu corfforaethol i sbarduno'r newidiadau angenrheidiol ar gyfer cyflawni gwelliant ar hyn o bryd.

Mae rhai gwasanaethau wedi sefydlu systemau effeithiol i reoli ac adrodd ar eu perfformiad a gwelsom dystiolaeth fod rheoli perfformiad yn cael ei ddefnyddio i werthuso gweithgarwch ac ysgogi gwelliant. Er enghraifft, mae gan y gwasanaethau cymdeithasol ddulliau hirsefydledig a strwythuredig o reoli perfformiad gyda llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom hefyd fod y Cyngor bellach yn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd i'w gwella ym maes Addysg, er enghraifft, y gwaith a wnaed ar yr Amcan Gwella i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETS). Mae'n amlwg fod rheoli perfformiad ym maes Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei ystyried yn bwysig ac yn angenrheidiol, a chaiff ei ddefnyddio i helpu i werthuso a chefnogi rheolwyr er mwyn gwella perfformiad a'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

Fodd bynnag, parhau y mae'r gwendidau a nodais mewn meysydd eraill yn fy *Adroddiad Gwella Blynyddol* ym mis Ionawr 2012 – er enghraifft Adfywio a Phriffyrdd – ac ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd o newid neu welliant yn y modd y mae'r gwasanaethau hyn yn gwerthuso eu perfformiad. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi sefydlu cynlluniau gweithredu manwl i gefnogi cyflawniad pob Amcan Gwella ond mae i ba raddau y gwelir Amcanion Gwella mewn cynlluniau gwasanaethau neu fusnes ac mewn adroddiadau yn amrywio. Gwelsom nad oedd gan rai gwasanaethau megis Adfywio a Phriffyrdd unrhyw gynlluniau ar gyfer 2011-12 a defnyddient Ffynnon yn syml ar gyfer cofnodi eu perfformiad yn erbyn y dangosyddion yn hytrach nag er mwyn ysgogi a rheoli gweithgarwch i gefnogi gwelliant. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i gynllunio, ysgogi a rheoli gwelliant yn effeithiol, ac i gysylltu â gwasanaethau neu bartneriaid eraill y Cyngor a allai effeithio'n gadarnhaol ar gyflawniad yr Amcanion Gwella. Mae'n golygu fod peth gweithgarwch gwella yn fater o achub cyfle yn hytrach na bod wedi'i gynllunio am na chafodd gwaith ei nodi a'i reoli'n gadarn.

Hefyd, nid yw adroddiadau gwasanaethau i bwyllgorau craffu yn adrodd yn gyson ar berfformiad yn erbyn yr un gyfres o fesurau. Mae'r mesurau hyn yn aml yn newid o un chwarter i'r nesaf, gan ei gwneud yn anodd barnu pa mor dda neu pa mor wael y mae'r gwasanaeth yn perfformio. Hefyd, mae adroddiadau'n methu ag adolygu cynnydd yn erbyn yr ystod o gamau gweithredu a gytunwyd ar gyfer eu cyflawni o dan bob Amcan Gwella, felly nid oes modd mesur a yw'r Cyngor yn gwneud yr hyn y dywedodd y byddai'n ei wneud neu a yw'n canolbwyntio ar y pethau cywir er mwyn gwella perfformiad gwasanaeth. Oherwydd bod cwmpas ac ansawdd perfformiad ac adrodd yn 2011-12 yn dal i amrywio'n sylweddol rhwng adrannau ac oherwydd bod ansawdd gwybodaeth yn dal yn anghyson a heb fod yn gadarn bob amser, nid yw'r Cyngor yn gallu rheoli ac adrodd yn ddibynadwy ar ei berfformiad i gefnogi gwelliant. Mae angen i'r Cyngor gryfhau'r modd y mae'n herio perfformiad corfforaethol, perfformiad o fewn gwasanaethau, a pherfformiad yr aelodau.

**Nid yw'r Cyngor yn gallu barnu'n gyson pa mor dda y mae'n perfformio oherwydd gwendidau yn ystod ac ansawdd ei fesurau perfformiad a chyfyngiadau yn ei werthusiad o gynnydd**

Mae hunanwerthuso yn nodwedd allweddol o broses wella pob sefydliad. Gall hunanwerthuso da ddarparu sicrwydd a galluogi sefydliadau i lunio barn ynglŷn â pha mor dda y maent yn perfformio a ble mae angen canolbwyntio adnoddau er mwyn ysgogi gwelliant. Mae hunanwerthuso effeithiol yn dibynnu ar greu diwylliant sy'n gwerthfawrogi a defnyddio gwybodaeth, ac sy'n meddu ac yn canolbwyntio ar ddata a threfniadau adrodd o safon uchel er mwyn gallu llunio barn ar berfformiad.

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Ionawr 2012 nodais fod angen i'r Cyngor: arddangos yn fwy eglur sut y mae camau gweithredu a gynlluniwyd yn cyfrannu at ganlyniadau; a gwerthuso ei berfformiad yn fwy effeithiol yn ei Adroddiadau Perfformiad blynyddol yn y dyfodol. Er bod peth cynnydd wedi'n wneud yn y modd y mae'r Cyngor yn llunio barn ar ei berfformiad, nododd fy asesiad o Adroddiad Perfformiad y Cyngor ar gyfer 2011-12 fod gwendidau ac anghysonderau o hyd o ran ansawdd a thrylwyredd ei waith asesu ac mae gwaith pellach i'w wneud er mwyn gwella cwmpas asesiadau a threfniadau adrodd.

Mae'r Cyngor yn parhau i gyflwyno'r fframwaith atebolrwydd adrodd ar berfformiad yn seiliedig ar ganlyniadau. Mae'r fframwaith yn ei alluogi i farnu ei weithgarwch yn well drwy ddefnyddio mesurau sy'n gwerthuso faint mae'n ei wneud; pa mor dda mae'n ei wneud; ac a oes unrhyw un ar ei ennill o ganlyniad i'r gwaith. Mae'r Cyngor wedi cyflawni cryn dipyn o waith i gryfhau ei fesurau perfformiad i allu asesu effaith ei waith yn well. Bydd parhau i ddatblygu'r fframwaith yn cynorthwyo'r Cyngor i werthuso ei berfformiad yn fwy effeithiol yn y dyfodol, ac yn bwysicach, i fod yn fwy atebol i ddinasyddion Blaenau Gwent.

Canfu fy adolygiad o Adroddiad Perfformiad y Cyngor ar gyfer 2011-12 ddarlun anghyson o ba mor dda y mae atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau wedi gwreiddio o fewn y Cyngor. Mewn rhai meysydd, mae ystod ac ansawdd y mesurau perfformiad a ddefnyddir yn ei gwneud hi'n bosibl gwerthuso cynnydd, er enghraifft, yr Amcan Gwella sy'n ymwneud â chodi cyfraddau presenoldeb disgyblion ym mhob ysgol lle mae tystiolaeth ac asesiad y Cyngor yn dangos yn eglur y cynnydd a wnaed drwy gyflawni gwaith ac mae'r mesurau a ddefnyddiwyd i asesu cynnydd yn eglur ac yn briodol.

Fodd bynnag, mewn meysydd eraill nid yw'r sylfaen dystiolaeth a'r drefn werthuso mor drylwyr. Er enghraifft, o dan yr Amcan Gwella sy'n ymwneud â defnyddio technoleg newydd i gynnig dewis ehangach i gwsmeriaid o sut y medrant gael mynediad i wasanaethau'r Cyngor, mae'r ystod o fesurau ar gyfer "a oes unrhyw un ar ei ennill" yn ymwneud â thri pheth: canran y defnydd o sianeli mynediad y tu allan i oriau gwaith arferol; y gyfradd sy'n cefnu ar y ganolfan gyswllt; a chanran bodlonrwydd cwsmeriaid. Er hynny, mae'r ddau fesur cyntaf yn gwerthuso prosesau ac er bod yr olaf yn asesu bodlonrwydd cwsmeriaid, mae'r Adroddiad Perfformiad yn nodi fod y mesur hwn yn dal yn y broses o gael ei ddatblygu. Nid oes gan y Cyngor unrhyw fodd felly o werthuso a yw ei waith yn cyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion.

Yn fy adolygiad o *Adroddiad Gwella Blynyddol* Ionawr 2012 a'r Amcan Gwella sy'n ymwneud â gwella cyflwr a diogelwch priffyrdd, gwelais fod y Cyngor yn gwerthuso'i hun yn erbyn amrywiaeth sâl o wybodaeth perfformiad nad oedd yn gadael iddo arddangos effaith gadarnhaol ei waith. Ar gyfer 2011-12 mae'r un mesurau'n dal i gael eu defnyddio heb unrhyw newid. Golyga hyn fod y Cyngor yn parhau i fethu â gwerthuso pa mor dda mae'n gwneud ac nid yw'n dysgu o her allanol i'w berfformiad.

Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor 2011-12 yn darparu crynodeb o'r cynnydd a wnaed ar gyflawni ystod o weithgareddau yn erbyn pob un o'r Amcanion Gwella. Fodd bynnag, nid yw'r naratif ar y cynnydd bob amser yn cefnogi casgliad ynglŷn ag a yw'r Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Gwella. Mae rhai gwerthusiadau'n eglur ac yn galluogi'r darllenydd i ddeall perfformiad, er enghraifft, yr amcan gwella sy'n ymwneud â NEETS. Mewn meysydd eraill, megis yr Amcan Gwella sy'n ymwneud ag adfywio canol trefi, ychydig o welliant a fu o ran cwmpas y gwerthusiad; nid yw'r wybodaeth yn canolbwyntio ar farnu effaith; ac nid yw'n cynnwys datganiad cynhwysfawr ac eglur ar gynnydd. Yn wir, o dan yr Amcan Gwella hwn, adroddir na welir cynnydd yn y rhan fwyaf o'r prosiectau a dargedwyd ar gyfer eu datblygu yn 2011-12 a'u bod yn dal heb eu cyflawni ond nid yw'r gwerthusiad yn adlewyrchu hyn.

Yn yr un modd, ni cheir adroddiad na sylwadau ar effaith a llwyddiant tair o'r pum rhaglen waith o dan yr Amcan Gwella sy'n ymwneud â phriffyrdd yn yr Adroddiad Perfformiad. Nid yw'r Amcan Gwella sy'n ymwneud â phobl agored i niwed sydd angen cefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol i fyw'n annibynnol a llawn, ac aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd ond yn gwerthuso perfformiad yn erbyn tri o'r saith targed allweddol a osodwyd. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i hunanwerthuso ei berfformiad yn llwyddiannus ac yn rhoi darlun anghytbwys ac anghyson o ba mor dda mae'n gwneud. Dyma golli cyfle, gan fod AGGCC yn adrodd yn ei adolygiad blynyddol a'i werthusiad o berfformiad yn 2011-12 fod adroddiad y Cyfarwyddwr[1] yn rhoi cyfrif cynhwysfawr o berfformiad yr awdurdod. Mae'r adroddiad hwn yn gytbwys yn y modd y mae'n dangos y cyflawniadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn tra'n cydnabod yr heriau a nodi meysydd sydd angen sylw pellach. Mae adroddiad y Cyfarwyddwr yn rhoi cyfrif cynhwysfawr o berfformiad y Cyngor yn 2011-12.

Nid yw'r Adroddiad Perfformiad bob amser yn eglur, ac mae wedi'i strwythuro'n wael. O ganlyniad, nid yw'n cynnig gwerthusiad taclus o berfformiad. Er enghraifft, mae data perfformiad yn adrodd ar weithgarwch yn erbyn Hydref 2011, Mai 2012 yn ogystal â blynyddoedd ariannol 2010-11 a 2011-12. Rhydd ddarlun dryslyd o'r gweithgarwch am ei fod yn torri ar draws y blynyddoedd ariannol ac nid yw'r naratif yn dangos yn eglur i'r darllenydd beth yw'r sail resymegol neu'r stori sy'n sail i'r perfformiad.

[1] Adolygiad blynyddol o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol cyngor a gyflawnir gan AGGCC sy'n cynnwys asesiad o hunanwerthusiad cyngor o'i berfformiad (sy'n aml yn cael ei alw'n 'adroddiad y Cyfarwyddwr'). Mae AGGCC yn rhoi gwerthusiad cyffredinol o berfformiad, ac yn nodi meysydd lle gwelir cynnydd a meysydd ar gyfer eu datblygu.

Mewn amryw o lefydd, mae'r Adroddiad Perfformiad yn amlinellu perfformiad y Cyngor yn erbyn Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus a Setiau Data Gwella Gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn adrodd ar ei berfformiad gwirioneddol dros y pedair blwyddyn ariannol ddiwethaf (2008-09 i 2011-12) yn ogystal â chymharu perfformiad â chyfartaledd Cymru. Gellid gwella hyn ymhellach drwy gynnwys safle'r Cyngor ymhlith y 22 cyngor yng Nghymru, y newid yn ei safle dros amser a'i berfformiad o gymharu â chynghorau eraill er mwyn llunio barn fwy effeithiol ynglŷn â graddfa'r gwelliant. Mae'r Cyngor wedi cynnwys cymhariaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mewn perthynas â rhai mesurau perfformiad o dan ei Amcanion Gwella, ond ffocws cyfyng sydd i hyn ac nid yw'n rhoi persbectif cyflawn ar ba mor dda y mae'n perfformio. Hefyd, ni cheir sylwadau i egluro'r hyn y bwriedir i'r dangosyddion ei fonitro neu'r hyn a olygant ac ni cheir crynodeb i ddweud a yw perfformiad yn gyffredinol yn gwella, yn dirywio neu'n aros yr un fath. Ni chaiff unrhyw ddata ei gynnwys ar gyfer rhai mesurau mewn rhai blynyddoedd ac ni cheir unrhyw eglurhad dros y diffyg. Mae'r darlun a roddir o berfformiad yn un anghyflawn.

Rwy'n bryderus hefyd ynglŷn â pha mor ddibynadwy yw'r modd y defnyddir gwybodaeth i lunio barn am welliant a nodais rai anghysonderau yn yr Adroddiad Perfformiad. Er enghraifft, o dan Amcan Gwella 'cynyddu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth' mae'r Cyngor yn adrodd ei fod wedi creu 396 o swyddi ond mae'n nodi hefyd fod diweithdra wedi codi 1.1 y cant rhwng 2010-11 a 2011-12. Fodd bynnag, mae Gwasanaeth Gwybodaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi fod gostyngiad o 1,000 wedi bod yn nifer y bobl mewn gwaith rhwng 2010-11 a 2011-12, o 26,700 i 25,700, sy'n ostyngiad o 3.7 y cant, nid 1.1 y cant. Nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn cynnig sylwadau ar yr anghysonderau hyn sy'n gwneud y dadansoddiad yn llai dibynadwy.

Gall gosod targedau fod yn ddull defnyddiol o herio'r sefydliad neu faes gwasanaeth penodol i wneud yn well. Mae adolygu perfformiad gwirioneddol mewn perthynas â thargedau yn rhoi gwybodaeth ynglŷn ag a yw amcanion yn cael eu cyflawni mewn modd wedi'i gynllunio a'i reoli. Nid yw Adroddiad Perfformiad y Cyngor ar gyfer 2011-12 yn asesu ei berfformiad yn erbyn unrhyw dargedau, hyd yn oed pan fo targedau'n bodoli. Er enghraifft, gosododd y gwasanaethau cymdeithasol dargedau ar gyfer mesurau perfformiad allweddol sy'n cael eu monitro bob chwarter ond ni chaiff y wybodaeth hon a'r targedau hyn eu cynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad. Golyga hyn nad yw'r Cyngor yn gallu adrodd ar ei effeithiolrwydd yn cyrraedd ei dargedau ac ni all dinasyddion weld a yw'r Cyngor yn cyrraedd y lefel o welliannau y bwriadodd eu cyflawni.

Er bod yr Adroddiad Perfformiad yn disgrifio'n gyffredinol sut y mae'r Cyngor wedi perfformio, eto nid yw'n cynnwys datganiad gwerthusol cyffredinol yn erbyn pob un o'r Amcanion Gwella i ddynodi'n eglur a yw'r Cyngor yn credu ei fod wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Er enghraifft, nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys eglurhad dros ddirywiad mewn perfformiad, methiant i gyflawni gwaith neu lle gwelwyd gwelliant.

Mae hyn yn lleihau eglurder ac effeithlonrwydd cyffredinol yr adroddiad ac yn gwneud y Cyngor yn llai atebol dros ei berfformiad i'w ddinasyddion.

**Nid yw dibynadwyedd data ar gyfer rheoli gwybodaeth am berfformiad yn gyson a chadarn mewn rhai gwasanaethau o hyd**

Mae angen i bob cyngor feddu ar wybodaeth dda a'i defnyddio'n effeithiol os yw'n mynd i ddarparu gwasanaethau da a'u gwneud yn well eto. Mae gan y Cyngor systemau wedi'u sefydlu'n dda ar gyfer adrodd ar ei berfformiad ac rwyf wedi archwilio'r systemau hyn i asesu pa mor effeithiol a dibynadwy yw'r trefniadau hyn. Mae'r mesurau a ddewiswyd i'w harchwilio yn gymysgedd o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Setiau Data Gwella Gwasanaeth a mesurau lleol a ddatblygwyd gan y Cyngor. Mae'r holl fesurau a archwiliwyd yn rhai y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i farnu pa mor dda y mae'n cyflawni ei Amcanion Gwella ac a yw'n gwneud gwahaniaeth i'w ddinasyddion. Gwelais fod yn rhaid gosod amodau wrth bedwar o'r 27 mesur a archwiliwyd ac roedd angen cywiro chwech ohonynt oherwydd gwallau.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Ceir rhai cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru drwy:<br>• fynegi barn y Cyngor ynglŷn â'i lwyddiant yn cyflawni ei Amcanion Gwella;<br>• defnyddio sylfaen dystiolaeth ehangach o wybodaeth i alluogi'r Cyngor i asesu a yw wedi cyflawni ei Amcanion Gwella;<br>• ymestyn y defnydd o wybodaeth gymharol drwy gymharu â chyrff cymharol eraill; a<br>• sicrhau bod asesiad y Cyngor o'i berfformiad mor hygyrch â phosibl i ddinasyddion a rhanddeiliaid. |
| C2 | Gwella trefniadau rheoli perfformiad drwy:<br>• gryfhau gallu corfforaethol i ysgogi gwelliant;<br>• cytuno ar gyfrifoldebau strategol dros reoli perfformiad; a<br>• datblygu a chyflwyno trefniadau mwy cydgysylltiedig, cydlynol a chadarn ar gyfer rheoli, adrodd ar, gwerthuso a gwella perfformiad. |
| C3 | Sicrhau bod gan bob gwasanaeth drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli, adrodd ar, gwerthuso a gwella perfformiad, wedi'u hadrodd yn gyson yn erbyn safonau gofynnol y cytunwyd arnynt ac sy'n ddarostyngedig i drefniadau herio a chraffu cadarn. |

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Copi: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau